Jane Helen Rowlands, ‘Helen o Fôn’, 1891–1955
Cenades (MC)

Ganed Jane Helen Rowlands ar 3 Ebrill 1891 ym Mhorthaethwy, Môn. Capten llong oedd ei thad Jabez, a gwniadwraig oedd ei mam Martha, a ddeuai’n wreiddiol o Lanfair Mathafarn Eithaf. Hi oedd yr ieuengaf o dri o blant. Aeth ei brawd, y Parch. William Rowlands, i weinidogaethu mewn eglwysi Presbyteraidd Cymraeg a Saesneg yn Awstralia. Ordeiniwyd ei brawd arall, Thomas John, yn weinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac yn fugail yn Llanfechell a Jerwsalem, Môn, a Laird Street, Penbedw, ond yna trodd at yr Eglwys yng Nghymru a daeth yn rheithor Llandudno. Edmygai Helen ei brodyr ac yr oedd dylanwad Cristnogol trwm arni gan y byddai ei mam yn cadw dyletswydd deuluaidd bob bore a hwyr. Elwodd hefyd ar weinidogaeth y Parch. Thomas Charles Williams, Capel Mawr, Porthaethwy.

Dangosodd allu barddonol yn gynnar pan enillodd gystadleuaeth yr englyn yn eisteddfod flynyddol Penrhiw. Wedi iddi fynychu Ysgol Ramadeg Biwmares, bu’n llwyddiannus yn Arholiad Uchaf Bwrdd Canolog Cymru gan ennill ‘Matriculation’ Prifysgol Cymru. Enillodd hefyd ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol, Bangor, a chychwynnodd ar gwrs gradd yn Saesneg a Ffrangeg. Yr oedd yn gyd-efrydydd a Kate Roberts y llenor. Ar ôl tair blynedd enillodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Ffrangeg. Yn sgil hyn enillodd ysgoloriaeth Osborne Morgan i wneud gwaith ymchwil am ddwy flynedd, a threuliodd un tymor yng Ngholeg Newnham yng Nghaergrawnt. Mae’n amlwg iddi ddioddef ing ysbrydol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd roedd tyndra yn ei chalon rhwng datblygu ei gyrfa academaidd ac ymdeimlad o alwad i’r genhadaeth.

Dychwelodd adref i Fôn a threulio cyfnod fel athrawes Ffrangeg yn ei hen ysgol ym Miwmares ac yna yn Ysgol Ganolradd y Merched yn y Drenewydd. Yr oedd i Drefaldwyn fwy o draddodiad cenhadol gyda glewion fel John Davies, Tahiti, a John

Evans, cenhadwr cyntaf y Presbyteriaid, yn hanu o'r ardal. Dyfnhaodd yr alwad a derbyniwyd hi'n genhades yng Nghymanfa Gyffredinol Llundain 1915. Yn ddiymdroi aeth am hyfforddiant arbenigol ar gyfer y maes cenhadol yng Ngholeg St Colm, Caeredin.

Hwyliodd Jane Helen Rowlands ynghyd â chenhades arall, Aranwen Evans, am y maes cenhadol o borthladd Lerpwl ym 1916 ar y llong *City of Marseilles*. Treuliodd ei deng mlynedd cyntaf yn India yn nosbarth Sylhet, a'i phrif waith oedd dysgu mewn ysgol lle'r oedd rhyw gant o ferched, ond byddai hefyd yn pregethu ac yn cadw ysgol Sul. Ym 1927 symudwyd hi i ofalu am y gwaith i ym Maulvi Bazaar, o ganlyniad i waeledd y Parch. J. Pengwern Jones. Wedi dwy flynedd yno fe'i penodwyd yn brifathrawes ysgol iaith yn Darjeeling lle y dysgai'r cenhadon yr ieithoedd brodorol. Bu yno am chwe blynedd ac o dan ei harweiniad medrus hi bu'r ysgol yn llwyddiant mawr. Symudodd wedyn i ofalu am ysgol i ferched yn Karimganj ac i efengylu yn y pentrefi cyfagos.

Enillodd MA trwy gyfrwng y Fengaleg ym Mhrifysgol Calcutta, ac ym 1930 enillodd ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Sorbonne gyda'i thraethawd ymchwil Ffrangeg, 'La Femme Bengalie Dans La Literature du Moyen âge', sef 'Y Ferch ym Mengal yng ngoleuni Llenyddiaeth yr Oesodd Canol'. Ym 1940 sefydlodd Dipti Nibash (Annedd Goleuni) yn Karimganj, sef canolfan i ofalu am weddwon ifanc a phlant amddifad a ystyrid yn ddinasyddion eilradd. Bu farw'n ddisymwth yn ei chwsg yn Dipti Nibash ym mis Chwefror 1955 a chladdwyd ei gweddillion ar dir y Genhadaeth yn Karimganj.